# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED MEHEFIN, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 31 Mai 2024)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Huw Rowlands |
| Elfed Williams | Sedd Wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Anwen J. Davies | John Brynmor Hughes |
| Hefin Underwood | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024 / 25

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024 / 25

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4ydd o Fawrth 2024 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 14

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

a) Ebrill 9fed 2024
b) Mawrth 20fed 2024

## 8. DIWEDDARIAD AR Y POLISI AR GYFER HURIO PREIFAT A CHERBYDAU HACNI

I dderbyn diweddariad ar lafar ar y polisi ar gyfer hurio priefat a cherbydau hacni

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**Mawrth 4ydd 2024**

**Presenoldeb:** Cynghorydd Gwynfor Owen (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr:

Alan Jones Evans, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell a Gareth Williams

Swyddogion:

Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams and Elfed Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Rhagfyr 4ydd 2023 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 19 Rhagfyr 2023 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:10 a daeth i ben am 10:55

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 09-04-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Anwen Hughes a Huw Rowlands

**Swyddogion:** Sïon Huws ( Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) - arsylwi

**Eitem 5:**
Ymgeisydd – Mr A, ei bartner a'i gynrychiolydd
Tomos Wyn Jones (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd)
Robert Taylor (Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu)

**Eitem 6:**

Ymgeisydd – Mr B

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor roi cyfle i Mr A egluro cefndir y digwyddiad a chynnig rhesymau dilys i'r Is-bwyllgor pam ei fod o'r farn ei fod bellach yn berson 'addas a phriodol' i dderbyn trwydded hacni. Os nad oedd yr Is-wyllgor wedi hynny, yn argyhoeddedig fod yr ymgeisydd yn berson 'addas a phriodol', yna argymhellwyd fod y cais yn cael ei wrthod oherwydd ei fod yn groes i gymal 6.1 a 6.2 o'r polisi  Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr y Cyngor.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd bod y digwyddiad wedi cael ei gydnabod gan swyddogion yr Uned Drwyddedu, ond honnwyd bod yr unigolyn arall wedi ei daro yn gyntaf. Ategwyd bod ymddygiad yr unigolyn tuag at yr ymgeisydd wedi bod yn annerbyniol ar sawl achlysur, a bod yr ymgeisydd wedi ceisio ffonio'r Heddlu ond nad oeddynt yn gallu ymateb mewn pryd. Fodd bynnag, eglurwyd bod yr unigolyn arall hefyd wedi'i erlyn a'i gollfarnu am yr un drosedd.

Cyflwynwyd dau eirda am gymeriad yr ymgeisydd ynghyd a disgrifiadau byr o'r hyn a ddyfarnwyd yn y Llys.

Cytunwyd rhannu fideo o'r digwyddiad.

Nodwyd nad oedd gan yr ymgeisydd unrhyw gollfarnau na materion eraill i'w hystyried ac mai gyrru tacsi oedd ei fywoliaeth (bod ganddo drwydded ers 2018). Un digwyddiad ynysig sydd yma, yn groes i gymeriad; Nid oedd patrwm o ymddwyn yn amhriodol a'r ymgeisydd eisoes wedi derbyn cosb gan y Llys am ei ymddygiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â sut y gallai'r ymgeisydd argyhoeddi'r Is-bwyllgor ei fod yn berson addas a phriodol, nodwyd mai un digwyddiad oedd yma ac nad oedd wedi bod mewn unrhyw anghydfod o'r blaen ac nad oedd yn ddyn treisgar.

Mewn ymateb i sylw bod dogfennau'r ymgeisydd wedi cael eu postio i'r cyfeiriad anghywir, nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yr Uned Drwyddedu wedi derbyn diweddariad o'r cyfeiriad newydd ac mai'r cyfeiriad oedd ar drwydded yr ymgeisydd oedd wedi ei  ddefnyddio.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu a Datganiadau'r Swyddogion Gorfodaeth
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd a geirdai

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Rhagfyr 2022, ataliwyd trwydded yr ymgeisydd er mwyn diogelu’r cyhoedd : yn unol â darpariaeth Adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Yn Chwefror 2023 derbyniodd gollfarn o Ddefnyddio Trais / Bygwth trais mewn man cyhoeddus ynghyd a dirwy o £200 ; costau £85 a gordal o £80.

Yn seiliedig ar y ffaith bod yr ymgeisydd wedi pledio'n euog i'r cyhuddiad; penderfynodd yr Uned Drwyddedu ddirymu ei drwydded yrru cerbyd tacsi, gan roi copi o’r hysbysiad dirymu iddo yn unol ag adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaeth Amrywiol) 1976 gyda chamau gweithredu ar unwaith.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.1 yn nodi, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

Mae paragraff 6.5 o’r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i’w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau’r Polisi, esboniad cynrychiolydd yr ymgeisydd o’r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu.

Adroddwyd bod gan yr Is-bwyllgor rywfaint o gydymdeimlad gyda’r ymgeisydd ynghylch y digwyddiad ac yn derbyn bod dwy ochr amlwg i'r stori, gyda’r unigolyn arall dan sylw yn rhannu cyfrifoldeb am yr hyn a ddigwyddodd. Fodd bynnag, nodwyd bod rhaid rhoi sylw i ddarpariaethau Polisi’r Awdurdod, sy’n datgan y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod oni bai bod cyfnod o 3 blynedd o leiaf wedi mynd heibio ers i drosedd o’r fath ddigwydd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol, er bod cyfnod amser yn cael ei nodi yn y canllawiau, bod cyfle i'r ymgeisydd dystiolaethu ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded hacni/hurio preifat. Er nad oedd y swyddogion trwyddedu wedi derbyn unrhyw gwynion am ymddygiad bygythiol / treisgar gan yr ymgeisydd ers y digwyddiad ym mis Rhagfyr 2022, roedd yn achos pryder mai ond tua hanner y cyfnod disgwyliedig o dair blynedd oedd wedi mynd heibio ers y digwyddiad.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth arbennig i'r ffaith bod y digwyddiad wedi digwydd tra bod yr ymgeisydd yn gweithio fel gyrrwr tacsi ac felly yn pryderu, os mewn sefyllfa o straen lle bydd tebygrwydd o orfod delio gydag ymddygiad heriol neu bryfoclyd, y byddai disgwyl iddo ymateb yn briodol. Ystyriwyd bod y modd y mae gyrrwyr yn ymateb i sefyllfaoedd o'r fath yn berthnasol, gan fod rhaid sicrhau bod diogelwch y cyhoedd yn ganolog i ddyletswydd yr Is-bwyllgor wrth ystyried ceisiadau.

Wedi ystyried yr holl ffactorau, nid oedd yr is-bwyllgor wedi eu hargyhoeddi bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded ar hyn o bryd. I gyfarch gofynion Polisi'r Awdurdod, nid oeddynt yn ystyried bod digon o amser wedi mynd heibio ers y drosedd ac nad oedd unrhyw amgylchiadau eithriadol yn yr achos yma fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi ar y Polisi.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid gwrthod y cais ac nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cydnabod y gollfarn ar ei ffurflen gais am drwydded.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn. Nododd bod y digwyddiad yn un a ddigwyddodd pan roedd yn yr ysgol ac nad oedd wedi troseddu ers hynny.

**PENDERFYNWYD**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ebrill 1976, derbyniodd yr ymgeisydd golfan mewn Llys Ieuenctid am gyflawni ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A47. Derbyniodd ddirwy o £5

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.1 yn nodi, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o’r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i’w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau’r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o’r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu’r cais gan fod yr unig gollfarn wedi'i chyflawni 48 mlynedd yn ôl sydd bell tu hwnt i’r cyfnod tair blynedd ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o gam ymddwyn ers hynny.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00am a daeth i ben 11 :50am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20-03-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth T Jones ac Angela Russell

**Swyddogion:** Sïon Huws ( Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Eitem 5: Ymgeisydd – Miss A a'i chynrychiolydd
Eitem 6: Ymgeisydd – Mr B

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Miss A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Miss A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Mewn ymateb i gwestiwn am fwy o wybodaeth ynglŷn â Thystysgrif Llwyddiant Diogelwch i Yrwyr Tacsi (Safeguarding for Taxi Drivers), nododd y Rheolwr Trwyddedu mai cwrs hyfforddi rhyngweithiol o ansawdd uchel ydoedd yn addysgu dysgwyr ar sut i gyflawni eu dyletswyddau diogelu a hynny drwy adnabod gwahanol fathau o gam-drin a/neu gam-fanteisio ac adrodd ar y pryderon hynny yn briodol. Ategodd, ers tair blynedd, bod yr Uned Trwyddedu yn argymell gyrwyr tacsi i gwblhau'r hyfforddiant, a'r bwriad i'r dyfodol yw ei wneud yn rhan o'r Polisi Trwyddedu

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nododd fod yr ymgeisydd wedi bod yn onest yn ei chais ac wedi egluro pam gafodd y gorchymyn cymunedol ei ddirymu. Ategodd mai un digwyddiad oedd yma a bod yr ymgeisydd wedi pledio yn euog. Petai'r cais yn cael ei ganiatáu byddai yn hapus i'w chyflogi.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei chais, ond mynegodd ei bod yn hapus gyda'r hyn roedd ei chynrychiolydd wedi ei gyflwyno.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn mis Ionawr 2020 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861.A.47

Yn Mawrth 2022 cafwyd yr ymgeisydd yn euog am fethu cydymffurfio gyda gofynion gorchymyn Cymunedol yn groes i Ddeddf Dedfrydu 2020 Atodlen10 a gafodd ei ddirymu ar ôl hynny.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.1 yn nodi, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad cynrychiolydd a darpar gyflogwr yr ymgeisydd o'r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu i ganiatáu'r cais.

O dan bolisi'r awdurdod ystyriwyd bod digon o amser wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf i ystyried caniatáu'r drwydded.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais. Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi datgan y pwyntiau goryrru ar ei gais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb a dderbyniodd am oryrru. Wrth gyflwyno ei wybodaeth daeth i'r amlwg nad oedd cyfanswm y pwyntiau cosb ar Adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a

Cherbydau (DVLA) yn cyfateb i'r hyn roedd yr ymgeisydd yn ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ynghyd a dryswch ynglŷn â chofnod y TT99 ar yr un adroddiad. (Mae cofnod TT99 yn amlygu gwaharddiad o dan 'totting-up' - os yw cyfanswm y pwyntiau cosb yn cyrraedd 12 neu fwy o fewn 3 blynedd, gellid diarddel y gyrrwr).

Datgelodd yr ymgeisydd hefyd yn ei gyflwyniad ei fod wedi ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o ddwy flynedd - gwybodaeth nad oedd wedi ei ddatgelu i'r Uned Drwyddedu yn unol â gofynion trwydded tacsi.

**PENDERFYNWYD Gohirio'r penderfyniad er mwyn gwneud ymholiadau pellach**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ionawr 2023, derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus - y pwyntiau hyn yn dod i ben Ionawr 2026

Yng Ngorffennaf 2023, derbyniodd yr ymgeisydd 4 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus - y pwyntiau hyn yn dod i ben Gorffennaf 2026

Arnodiad TT99 yn nodi cyfri'r pwyntiau os yw'r cyfanswm pwyntiau cosb yn cyrraedd 12 neu fwy o fewn 3 blynedd, ac yn dod i ben Ebrill 2025

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau a'r anghysondebau oedd yn ei gyflwyniad, gwybodaeth gan yr Uned Drwyddedu ac Adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). O ganlyniad, penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid gohirio'r cais er mwyn gwneud ymholiadau pellach i gais yr ymgeisydd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :30pm a daeth i ben 3 :40pm